

Pobl Ifanc yn hybu diogelwch pen ffordd



Gweithwyr Gorsaf Dân y Barri'n galw eu cyfarfod cyntaf o swyddogion ifanc diogelwch pen ffordd ac yn dangos y cyfarpar y byddant yn ei ddefnyddio i ryddhau pobl o gerbydau.

Plant ysgolion cynradd sy'n arwain ymdrechion i ledaenu neges diogelwch pen ffordd yn y Fro erbyn hyn.

Ers tair blynedd bellach, y mae tîm diogelwch pen ffordd y Cyngor yn gweithredu cynllun Swyddogion Ifanc Diogelwch Pen Ffordd yn ein hysgolion cynradd.

Er mwyn nodi llwyddiant parhaol y cynllun hwnnw, aeth y Cyngor ati'n ddiweddar i drefnu cyfarfod sefydlu arbennig yn Swyddfeydd y Doc.

Bu'r achlysur hwn, nid yn unig yn gyfle i swyddogion ifanc, athrawon a chynorthwyr ddathlu

llwyddiannau'r flwyddyn flaenorol, ond i'r bobl ifanc hefyd fynegi eu pryderon am ddiogelwch ar y ffordd ac awgrymu sut i'w wella.

Yn ystod y diwrnod, cawsom gyflwyniadau gan y gwahanol grwpiau, cwis diogelwch pen ffordd ac ymweliad gan swyddogion gorsaf dân y Barri a ddangosodd y cyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio i ryddhau pobl o gerbydau. Cawsom sesiwn holi ac ateb hefyd gyda'r heddlu a'r wasanaeth tân ac achub lleol.

Dyweddodd prif swyddog diogelwch pen ffordd, Mike Dacey: 'Dechreuodd y cynllun Swyddogion Ifanc dair blynedd yn ôl, ac mae 19

o ysgolion wedi ymuno erbyn hyn. Rydym yn gobeithio gweld swyddogion ifanc diogelwch pen ffordd ym mhob ysgol gynradd yn y Fro yn y pendraw.

'Roedd ein cyfarfod cyntaf yn llwyddiant ysgubol. Roedd y swyddogion ifanc yn gredyd i'w hysgolion a'u cyflwyniadau'n wirioneddol dda.

'Hoffwn ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd at yr achlysur buddiol hwn. Edrychwn ymlaen yn arw at redeg yr holl gynllun unwaith eto'r flwyddyn nesaf'.

Bob blwyddyn, byddwn yn gofyn i hyd at bedwar plentyn ym mhob

ysgol yn y cynllun weithio'n arbennig er mwyn tynnu sylw eu cyd-ddisgyblion, eu hathrawon a'u cymunedau lleol at broblemau diogelwch ar y ffordd.

Bydd pob ysgol yn y cynllun yn cael ffurfwisgoedd ar gyfer eu swyddogion, a byddwn yn awgrymu ffyrdd o gynnal cystadlaethau a chyfarfodydd boreol ar thema diogelwch pen ffordd.

Os ydych yn awyddus i'ch ysgol ymuno â'r cynllun, mae croeso i chi ffonio Mike Dacey ar 01446 704774 neu anfon neges e-bost i

mdacey@valeofglamorgan.gov.uk



Coedwigoedd arbennig

Mae nifer o goedwigoedd yng nghyffiniau'r Barri wedi'u dynodi'n safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig.


2



Iechyd Da!

Hwb o £10,000 i Wyl Bwyd a Diod y Bont-faen oddi wrth y Cyngor

4



Addysg i Oedolion

Atodiad arbennig yn rhestru'r cyrsiau Addysg i Oedolion sydd gan wahanol ganolfannau yn y Fro i'w cynnig.

9-12



Maer Newydd y Fro



Maer y Fro eleni yw'r Cyngh. A Clive Williams, MBE o Benarth.

Cafodd y Cyngh. Williams ei ethol gyntaf ym 1983, a bu'n gwasanaethu ar hen Gyngor Bwrdeistref y Fro a Chyngor Tref Penarth. Derbyniodd yr MBE yn 2005 am wasanaethau i'r gymuned ac roedd yn Faer Penarth ym 1987.

Ers ymuno â Chyngor y Fro, y mae'r Cyngh. Williams wedi gwasanaethu ar bob prif bwyllgor ac fel aelod o'r cabinet ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal ac adnoddau dynol a chydaddoldeb. Mae'n briod â Gwyneth sy'n Faeres.

Y Cyngh. Audrey Preston fydd y Dirprwy Faer a'i gŵr Robert fydd ei chydweddog.

Asesu perygl

O dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, mae'n rhaid i bob cyngor gynghori a chynorthwyo busnesau a sefydliadau gwirfoddol o safbwynt 'Rheoli Parhad Busnes'.

Bydd busnes yn 'rheoli ei barhad ei hun' drwy gynllunio ar gyfer asesu perygl, adnabod ei brif swyddogaethau a'i wendidau ei hun a pharatoi ar gyfer anhap.

Mae hyn yn bwysig am ei bod yn rhaid cadw busnesau rhag dioddef yn ddiangen yn ystod argyfwng er mwyn iddynt gael dod yn ôl i'w trefn arferol cyn gynted ag sy'n bosibl.

Os ydych yn gyfrifol am fusnes neu sefydliad gwirfoddol yn y Fro ac yn awyddus i drafod y materion hyn, anfonwch neges e-bost i emergencyplanning@valeofglamorgan.gov.uk

Dwli ar Ddysgu

Mae menyw o'r Barri wedi gweddnewid ei bywyd drwy addysg a chael cydnabyddiaeth genedlaethol o ganlyniad.

Cafodd Julie Jones ei blas cyntaf o addysg i oedolion yn Ysgol Colcot pan ymunodd â Rhaglen Dysgu Teuluol dan ofal Canolfan Dysgu Agored y Fro. Erbyn hyn, mae wedi derbyn gwobr 'Addysg y Teulu a mwy nag un Genhedlaeth' sy'n cael ei chynnig gan Sefydliad Cenedlaethol Addysg Barhaol i Oedolion.

Ymunodd Julie â'r cwrs er mwyn cael helpu eu hwyrion, a chafodd gymaint o foddhad fel na fedrai yn ei byw feddwl am roi'r gorau i ddysgu. Mae'n gobeithio'n arw y bydd ei llwyddiant yn ysbrydoli pobl eraill i wneud yr un fath.

Dyweddodd: 'Mae'r cwrs wedi

rhoi hyder i fi roi cynnig ar bob math o waith mewn bywyd na fyddwn i fyth wedi mentro ei wneud o'r blaen'.

Dyweddodd trefnydd y Rhaglen Dysgu Teuluol, Michele Carter: 'Ni fu Julie yn fawr o dro cyn dod yn un o brif aelodau'r grŵp, ac roeddem wrth ein bodd pan sgoriodd 95 y cant yn ei harholiad mathemateg'. Bydd cyrsiau Dysgu Teuluol yn cael eu cynnig mewn nifer o ysgolion yn y Fro.

Cewch fwy o wybodaeth am gyrsiau Saesneg; Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SiSIE); Mathemateg a Thechnoleg Gwybodaeth drwy ymweld â Gwasanaeth Sgiliau Sylfaenol y Fro yn Nhŷ'r Dalaith, Heol Kendrick, y Barri neu drwy ffonio (01446) 736466.



Caption: O flaen y camera....Enillydd y wobwr genedlaethol, Julie Jones (canol) gyda threfnydd Rhaglen Dysgu Teuluol Michele Carter (chwith) a Shirley Russ, athrawes y blynyddoedd cynnar a Thim Dysgu Teuluol.

Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2007/2008

Tymor	Dechrau	Hanner – Tymor		Gorffen
		Dechrau	Gorffen	
Hydref, 2007	*Llun, 3 Medi, 2007	Llun, 29 Hydref, 2007	Gwener, 2 Tachwedd, 2007	Gwener, 21 Rhagfyr, 2007
Gwanwyn, 2008	Llun, 7 Ionawr, 2008	Llun, 11 Chwefror, 2008	Gwener, 15 Chwefror, 2008	Iau, 20 Mawrth, 2008
Haf, 2008	Llun, 7 Ebrill, 2008	Llun, 26 Mai, 2008	Gwener, 30 Mai, 2008	*Gwener, 18 Gorffennar, 2008

• *Bydd dydd Llun 3 Medi 2007 a dydd Llun a dydd Mawrth 21 a 22 Gorffennaf 2008 yn ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd ym mhob ysgol sy'n cael ei chynnal gan AAL i Cynghor. Caiff ysgolion unigol drefnu'r ddau ddiwrnod hyfforddi sydd ar ôl fel y gwelant yn dda.

• *Bydd yn rhaid cymryd y diwrnodau hyfforddi a drefnwyd ar gyfer 21 a 22 Gorffennaf un ai ar y diwrnodau hynny neu ar adeg arall sy'n gyfleus i ysgolion unigol e.e. ar y penwythnos, yn ystod gwyliau neu drwy gynnal sesiynau hwyr.

• Bydd pob ysgol ar gau ar ddydd Llun 5 Mai 2008 ar gyfer Gwyl Banc Calan Mai.

Gwarchod coedwigoedd ar gyfer cenedlaethau i ddod

Mae Cyngor y Fro wrth ei fodd bod nifer o goedwigoedd yng nghyffiniau'r Barri wedi'u dynodi'n safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

Mae'r safle hwnnw, a ddynodwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru'n ymestyn dros ychydig yn fwy na 120 o hectarau. Mae'n cynnwys dwy ardal benodol sef coedwigoedd Pencoedre a Choed-yr-argae i'r dwyrain a choedwigoedd Middleton, Coed Mawr, Coed Bach, Coed y Capel a Lidmore i'r gorllewin.

Daeth yr ysgogiad i asesu coedwigoedd y Barri wrth i'r Cyngor ymchwilio ar gyfer cais cynllunio a oedd wedi dod i law ar gyfer rhan o goedwig Pencoedre.

Dyweddodd y Dirprwy Arweinydd, y Cyngh. Neil Moore: 'Am eu bod wedi'u dynodi, bydd y coedwigoedd hyn yn cael eu gwarchod o dan y gyfraith a'u

rheoli'n ddoeth o ganlyniad'.

Dyweddodd rheolwr rhanbarthol CCGC (ardaloedd y de a'r dwyrain) Dr Maggie Hill: 'Rydym yn awyddus i gydweithio â'r Cyngor er mwyn cadw'r ardaloedd o dan reolaeth addas a gwarchod y diddordeb arbennig ar gyfer cenedlaethau i ddod'.

Mae'r penderfyniad hwn yn golygu ei bod yn rhaid rhoi gwybod i Gyngor Cefn Gwlad petai unrhyw fwriad i ddefnyddio'r coedwigoedd dynodedig (sydd wedi'u rhannu'n 14 o flociau) i ddibenion gwahanol.

Yn ôl CCGC, y coedwigoedd hyn, lle mae'r onnen yn frenin a'r llawr yn rhyfeddod o blanhigion amrywiol, yw'r cynefin gorau o'i fath yng Nghymru'.

Cafodd rhyw 150 o wahanol blanhigion eu cofnodi i gyd – sef mwy nag ym mron pob coedwig arall yng Nghymru. Y tegeirian



Middleton Wood

llydanwyrdd mawr, yr hesgen eiddil-dywysennog, miled y coed, tegeirian porffor y gwanwyn, dwyddalen, cwlwm cariad, peneuraidd, blodyn menyng a chlust yr arth yw rhai o blanhigion prin y

coed a welwch yma.

Mae CCGC hefyd yn sôn am y nentydd a'r ceunentydd bach llaith sy'n ychwanegu at amrywiaeth gyfoethog y coedwigoedd hyn.



Llais Y Fro

Rydym yn awyddus i glywed eich barn

Ffoniwch Lais y Fro ar 01446 709454 neu anfonwch neges e-bost i press@valeofglamorgan.gov.uk

Myfyrwyr yn cloddio i orffennol Cosmeston

Bu myfyrwyr archeoleg wrthi’n ddiweddar yn astudio eitemau a ddaeth i law yn ystod y cloddio ym Mhentref Canoloesol Cosmeston beth amser yn ôl, fel rhan o brosiect partneriaeth newydd a chyffrous.

Mae’r prosiect hwn, sy’n cael ei gynnal ar y cyd â’r Cyngor a Phrifysgol Caerdydd, yn datgelu mwy am y safle a’r dirwedd o’i gwmpas ar hyd yr amser.

Bu’r myfyrwyr yn ailddarganfod ac yn rhestru llawer iawn o eitemau o gyfnodau ar wahân i’r oesoedd canol gan gynnwys crafwr fflint cynhanesyddol, darnau o grochenwaith Rhufeinig a phelen fagnel!

Dywedodd Jane Stewart, archeolegydd cymunedol ar gyfer



prosiect Cosmeston: ‘Rydym am roi cyfle i’r cyhoedd ddysgu am archeoleg’.

Dywedodd Nick Coles, rheolwr y pentref canoloesol fod

y Cyngor wrth ei fodd yn cefnogi prosiect sy’n tynnu sylw at bwysigrwydd hanesyddol Cosmeston. Dyma brosiect y gellid ei ddefnyddio ochr yn ochr

â digwyddiadau eraill er mwyn taflu goleuni pellach ar wir natur bywyd yn ystod yr oesoedd canol, mewn ffordd ddifyr. ‘Yn fwy na dim, bydd yn annog y gymuned i fwynhau a cheisio deall y safle unigryw hwn’ meddai.

Cafodd rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau ei llunio’n unsydd er mwyn cynnwys y gymuned mewn astudiaethau o hanes ac archeoleg yr ardal.

Buom hefyd yn annog ymwelwyr â Chosmeston i wylïo’r myfyrwyr wrth eu gwaith a chyffwrdd â gwrthrychau go iawn o’r gorffennol.

Os hoffech wybod mwy am y prosiect hwn neu fod yn rhan ohono, ffoniwch Jane ar 02 28 4260 neu ewch i www.cf.ac.uk/hisar/archaeology/cosmeston

Gwneud defnydd llawn o hen boteli gwin

Bu’r Cyngor yn rhoi pob ystyriaeth i’r amgylchedd yn ystod ei waith mawr i wella canol tref y Barri’n ddiweddar.

Mae’r prosiect ‘ardal gyhoeddus’ gwerth £1.45m yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yn Heol Holton gan gcontractwyr LGA Cyf. o Ben-y-bont ar Ogwr, a’r cwmni a’r awdurdod fel ei gilydd yn mynnu defnyddio’r prosesau mwyaf cynaliadwy.

Mae disgwyl i’r gwaith ddod i ben yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac am i’r prosiect ddenu grant gwerth £1m o Gronfa Adfywio Ffisegol Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd yn bosibl bachu ar sawl cyfle. Aethom ati, er enghraifft, i gulhau’r heol, sydd erbyn hyn yn rhan o system unffordd, ehangu’r palmentydd a chyflwyno celfi stryd ardderchog.

Gwnaethom bob ymdrech yn ystod y gwaith i ailgylchu defnyddiau a pheidio ag anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi, ac mae’r deunydd ar gyfer y palmentydd yn cynnwys llawer o wastraff eildro.

Esboniodd Paul Gay, rheolwr

gwaith adran peirianeg a dylunio’r Cyngor: ‘Ar ôl cloddio’r heol, byddwn yn mynd â’r gwastraff i safle LGA cyfagos a’i roi drwy beiriant gwasgu symudol sydd wedi’i gymeradwyo gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Byddwn yn ei aildddefnyddio wedyn yn Heol Holton ac ar gyfer y contractau lleol eraill sydd gennym ar y gweill gan gynnwys prosiect adnewyddu Gorsaf Dociau’r Barri. Nid ‘tywod’ arferol fydd gennym wrth osod cerrig palmant ond gwydr hen boteli ailgylchedig wedi’u malu’n fân’.

Bydd adran gwasanaethau gweladwy’r Cyngor a chwmni LGA fel ei gilydd yn dilyn egwyddorion Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd.

Dywedodd y Cyng. Rob Curtis, sy’n aelod o’r cabinet ar gyfer gwasanaethau gweladwy: ‘Bydd y Cyngor yn sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael sylw teilwng ym mhob agwedd ar ei waith. Soniwn yma nid yn unig am waith ein staff ein hunain ond unrhyw waith hefyd y bydd ein partneriaid busnes yn ei wneud drwy gcontract’.



Nid tywod sy’n cael ei ddefnyddio wrth osod cerrig palmant ond gwydr poteli ailgylchedig wedi’u malu’n fân.

Cyffroi cricedwyr ifainc



Cafodd rhyw 230 o blant o 20 o ysgolion cynradd yn y Fro lond cae o hwyl yn ddiweddar yn eu twrnaint Criced Cyflym blynyddol.

Daeth Syr Garfield Sobers, sy’n cael ei gydnabod yn gyffredinol fel un o gricedwyr gorau’r byd erioed, ar ymweliad i Glwb Athletau Penarth er mwyn cwrdd â chyw gricedwyr yr ardal. Yn ogystal â chynnig ambell i air o gyngor, gwnaeth yn siŵr bod ganddo ddigon o amser i arwyddo llyfrau llofnodion.

Pete Hardwick, swyddog cynorthwyol Chwaraeon y Ddraig yn y Cyngor, a drefnodd y twrnaint ar ran Bwrdd Criced Cymru. Cafodd ei noddi gan Asda o Fae Caerdydd a’r enillwyr y tro hwn oedd Llansanwyr.

Cafodd pob plentyn dystysgrif am gymryd rhan yn yr ornest a dywedodd Pete Hardwick: ‘Roedd hwyl anhygoel i’w chael a’r chwaraewyr, y rhieni, yr athrawon, y gwirfoddolwyr a’r holl ymhelwyr wrth eu bodd’.

Buddsoddi £270,000 mewn ffyrdd

Mae’r Cyngor yn bwriadu gwario £720,000 y flwyddyn nesaf ar wella rhwydwaith ffyrdd y Fro.

Drwy gymorth grant gwerth £582,000 oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, llwyddodd i nodi nifer o fannau yn yr ardal sydd angen eu gwella a dywedodd y Cyng. Rob Curtis, yr aelod o’r cabinet ar gyfer gwasanaethau gweladwy: ‘Mae’r Cyngor yn gwybod ei bod yn rhaid iddo roi ystyriaeth deilwng i faterion amgylcheddol ym mhob agwedd ar ei waith. Soniwn yma nid yn unig am waith ein staff ein hunain ond unrhyw waith hefyd y bydd ein partneriaid busnes yn ei wneud drwy gcontract’.



Gwefan Gymraeg

Os ydych yn siarad neu'n dysgu Cymraeg, mae gennym wefan ar eich cyfer erbyn hyn sef www.bromorgannwg.gov.uk

Bydd cyfieithydd y wefan, Sioned Edge yn gweithio'n gyson er mwyn sicrhau bod yr holl ddeunydd Saesneg yn cael ei drosi i'r Gymraeg.

Dyweddodd Sioned, sy'n siaradwr Cymraeg brodorol: 'Rydym am sicrhau bod holl gynnwys y wefan ar gael yn Gymraeg. Hoffem hefyd gynnig ambell i ddam o wybodaeth sydd o ddiddordeb arbennig i siaradwyr a dysgwyr yr iaith. Mae gennym adran arbennig am y Gymraeg a'i diwylliant yn y Fro sy'n cynnwys bywgraffiadau enwogion, rhestr ddwyieithog o enwau lleoedd a manylion am ddosbarthiadau Cymraeg lleol. Mae ffordd rwydd o gyfieithu deunydd yn yr adran hon hefyd er mwyn helpu dysgwyr i ddeall geiriau anghyfarwydd a bydd yn bosibl gwneud hyn ym mhob rhan o'r wefan cyn bo'n hir iawn'.

Mae Sioned hefyd wedi llunio tudalen 'cymorth gwaith cartref' er mwyn helpu rhieni di-gymraeg sy'n anfon eu plant i ysgol Gymraeg. Mae'n cyfeirio rhieni at bob math o adnoddau dwyieithog defnyddiol a dewch chi o hyd iddi yn adran lyfrgelloedd y wefan Saesneg.

Os oes unrhyw beth yr hoffech ei weld ar y wefan, rhowch wybod i ni drwy anfon neges i webcontent@valeofglamorgan.gov.uk

Bod yn siaml

Bydd y Cyngor yn gwneud ymdrech arbennig yn y dyfodol i wario llai o arian ar ynni a gollwng llai o garbon i'r awyr. Gwnaeth y penderfyniad hwn fel un o 45 o awdurdodau lleol newydd sy'n cymryd rhan ym mhuned cam Rhaglen Rheoli Carbon Awdurdodau Lleol dan ofal yr Ymddiriedolaeth Garbon.

Yn ystod pedwar cam cyntaf y rhaglen, cawsom wybod sut i arbed mwy na £33 miliwn y flwyddyn a 500,000 o dunelli o CO2.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn rhoi cyngor ymarferol i gynghorau er mwyn eu helpu i wario llai ar ynni a chyfyngu ar y llygredd carbon sy'n dod yn eu sgîl.

Dyweddodd y Cyngh. Rob Curtis (Pleidiwr Rheoli Carbon y Cyngor): 'Rwy'n teimlo'n gryf y dylai cynghorau fod yn siaml i'r gymuned'.

Gwledd i'r holl deulu yng Ngŵyl Fwyd y Fro

Os ydych yn hoff o fwyd mae'n werth nodi Gŵyl Bwyd a Diod y Bont-faen yn eich dyddiadur, yn enwedig wrth ystyried y fath hwb ariannol a gafodd oddi wrth y Cyngor yn ddiweddar.

Bydd y sioe fwyd ogoneddus yn ôl ar 27 a 28 Hydref a'r adeg honno, bydd mwy nag 80 o wahanol arddangoswyr yn heidio i'r pentref bach pert yn y Fro er mwyn dangos eu bwydydd lleol ac egsotig.

Mae'r ŵyl yn cael ei noddi am y bedwaredd flwyddyn gan y Cyngor, a'r flwyddyn hon, cyflwynodd yr awdurdod sic eam £10,000 i'w threfnwyr.

Mae hyn yn dod ar ben y nawdd sydd eisoes ar gael drwy gytundeb tair blynedd ag Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd ac oddi wrth Spar a Cwlfly.com

Yng ngŵyl 2007, bydd gennym babell caws a gwin am y tro cyntaf yn llawn cynnyrch blasus o bob cwr o Gymru. Daw'r hen ffefryn yn ôl hefyd, sef y babell siampên.

Bydd pen-cogyddion lleol

blaenllaw a sêr y cyfryngau'n dangos eu sgiliau coginio ac arbenigwyr diodydd yn cynnal sgysiau'n rhad ac am ddim.

Bydd llawer o weithgareddau'r ŵyl hefyd yn addas i blant.

Mae gennym well cyfleusterau ar gyfer pobl anabl y tro hwn ac mae nifer y lleoedd parcio ar gyfer gyrwyr anabl wedi mwy na dyblu.

Dyweddodd cadeirydd yr ŵyl, John Davies: 'Mae pob argoel y bydd gŵyl eleni'r un orau eto, ac rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y digwyddiad a'i holl gyfleusterau wrth fodd pob ymwelydd'.


Yn ogystal â'r cyfranwyr arferol a marchnad y ffermwyr, mae llawer iawn o arddangoswyr newydd eleni.

Dyweddodd rheolwr digwyddiadau, Polly Wilson: 'Bydd gŵyl eleni'n gyffrous gyda llawer o arddangoswyr newydd a gweithgareddau rhyngweithiol. Rydym yn edrych ymlaen yn arw at groesawu miloedd o ymwelwyr i'r Bont-faen.



Arweinydd y Cyngor, y Cyngh. Margaret Alexander yn cyflwyno sic eam £10,000 i John Davies, cadeirydd yr ŵyl.

Hybu ymarfer corff yn lleol



Mae prosiect arbennig sy'n annog grŵp o bobl yng Nghaerdydd a'r Fro i wneud mwy o ymarfer corff, yn dechrau dod at ei gilydd erbyn hyn.

Un o brosiectau 'Mentro Allan' yw 'Newid i Fyw' ac mae 14 o rai tebyg ar hyd a lled Cymru sy'n cael eu hariannu drwy Gronfa Fawr y

Loteri.

Rhwydwaith o fenywod o gefndir ethnig lleiafrifol (MEWN) sydd wrth y llyw, a bydd y prosiect yn cael ei gynnal drwy gydweithrediad gwahanol sefydliadau gan gynnwys Cynghrair Iechyd y Fro o dan arweiniad y Cyngor.

Nod y 15 prosiect yw annog pobl i wneud mwy o

ymarfer corff y tu fewn i'w cymunedau eu hunain, a bydd pob prosiect unigol yn targedu carfan wahanol o bobl. Mae 'Newid i Fyw' yn targedu pobl o gefndir croenddu neu ethnig lleiafrifol rhwng 18 a 64 oed.

Mae rhyw 28,200 o bobl yng Nghaerdydd a'r Fro'n dod o gefndir croenddu neu ethnig lleiafrifol a dengys gwaith ymchwil fod cymaint â 4,500 o'r rheiny'n byw heb wneud unrhyw ymarfer corff o gwbl. Nod y prosiect yw cyrraedd digon o bobl yn y grŵp hwn a chynnig gweithgareddau iddynt y gallant eu cynnal sy'n sy'n ffyrdd da ac iach o ymarfer corff dros gyfnod o amser.

Dyweddodd cyd-drefnydd y prosiect Aliya Mohammed: 'Bydd y prosiect yn datblygu ac yn cefnogi pob math o ymarfer corff iachus y gall

pobl o gefndir croenddu ac ethnig lleiafrifol ei ddilyn yn yr awyr agored yn eu cymunedau eu hunain.

'Ni fydd y gweithgareddau'n gystadleuol a byddwn yn eu cynnal i gyd yn yr awyr agored e.e.erobeg; ioga; tai chi (sy'n hawdd eu trefnu yn y parc neu yn yr awyr agored gyda phicnic a rhywun i ofalu am y plant). Bydd gennym weithgareddau eraill hefyd gan gynnwys teithiau cerdded o amgylch Bae Caerdydd ac ar hyd yr arfordir; teithiau cerdded cymunedol Valeways; garddio cymunedol a seiclo ysgafn'.

Er mwy gwybod mwy am y prosiect, ffoniwch Aliya Mohammed neu Sabrina Hashem ar 029 2046 4445 neu 079 990 195/0787 00 7591.



Llais Y Fro

Rydym yn awyddus i glywed eich barn

Ffoniwch Lais y Fro ar 01446 709454 neu anfonwch neges e-bost i press@valeofglamorgan.gov.uk

Digwyddiadau yn y Fro yn yr hydref

Medi

Sadwrn 1 a Sul 2 – Gŵyl Llongau Mastiau Uchel – Ardal Glannau’r Barri
Llongau mastiau uchel, reidiau yn y ffair, perfformwyr stryd, arddangosfeydd, bwyd, bandiau byw a chyfle i deithio ar y trên stêm.
Prince William a Tenacious yw’r llongau mastiau uchel sy’n galw heibio a bydd y ddwy ar agor i’r cyhoedd. Mae Tenacious wedi’i haddasu hefyd ar gyfer pobl anabl. Ffoniwch 01446 747171 am fwy o wybodaeth.

Sadwrn 1 – Marchnad Ffermwyr y Bont-faen
Maes parcio Arthur John rhwng 10am ac 1pm. Ffoniwch 01656 729305 am fwy o wybodaeth.

Mawrth 4 – Sul 9 – Gŵyl Gerddoriaeth Bro Morgannwg – Canolfan Gelfyddydau Sain Dunwyd
Mae’r ŵyl hon wedi’i chysegru i waith cyfansoddwyr cyfoes sy’n dal yn fyw, ac mae ganddi enw rhyngwladol am gyflwyno rhai o’r perfformiadau gorau yn y byd mewn mannau llawn awyrgylch o amgylch Caerdydd a’r Fro. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01446 799100 neu anfonwch neges e-bost i www.stdonats.com.

Gwener 7 – Jeifio Modern – Ystafelloedd Paget, Penarth
Dewch i fwynhau noson allan yn dawnsio. Tocynnau: £5 wrth y drws. Cewch ddiod ysgafn wrth y bar ac mae croeso i chi ddod â’ch alcohol eich hun. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 07977 901562 neu ewch i www.southwalesmodernjive.com.

Gwener 14 – Dawnsio Neuadd – Ystafelloedd Paget, Penarth
Mae croeso i bawb ymuno yn y noson gymdeithasol gyfeillgar hon. Bydd yn addas i unrhyw un sydd wedi meistrolï camau sylfaenol dawnsio neuadd neu sy’n gyfarwydd â rhai o’r dawnsiau dilyniant poblogaidd. Dewch â’ch diod eich hun. Tocynnau: £4 wrth y drws. Ffoniwch Alan Taylor ar 07890 707759 am fwy o wybodaeth.

Sadwrn 15 a Sul 16 – Penwythnos Etifeddiaeth Ewrop – Gerddi Dyffryn
Dyma gyfle i chi weld y gerddi hynod hyn yn rhad ac am ddim. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 029 2059 3328 neu ewch i www.dyffryngardens.org.uk.

Sadwrn 15 a Sul 16 – Penwythnos Etifeddiaeth Ewrop ym Mhentref Canoloesol Cosmeston, Penarth
Er mwyn dathlu Etifeddiaeth Ewrop cewch ddod i mewn i’r Pentref Canoloesol yn rhatach nag arfer drwy gydol y penwythnos. Ffoniwch 029 2070 1678 am fwy o wybodaeth.

Sadwrn 15 – Marchnad Ffermwyr y Bont-faen
Maes parcio Arthur John rhwng 10am ac 1pm. Ffoniwch 01656 729305 am fwy o wybodaeth.

Sadwrn 22 – Marchnad Ffermwyr Penarth
Ysgol Westbourne rhwng 10am ac 1pm. Ffoniwch 01656 729305 am fwy o wybodaeth.

Gwener 28 – Dawnsio Neuadd a Dawnsio Dilyniant Poblogaidd – Ystafelloedd Paget Penarth
Rhagor o hwyl ddawnsio rhwng 8pm a 10.30pm. Tocynnau: £4 wrth y drws. Dewch â’ch diod eich hun. Cewch wisgo’n daclus neu’n anffurfiol ond peidiwch â gwisgo jîns, trenyrs na chrys-T. Ffoniwch Alan Taylor ar 07890 707759 am fwy o wybodaeth.

Sadwrn 29 – Humphrey Lyttelton a’i fand – Canolfan Gelfyddydau Sain Dunwyd
Noson o gerddoriaeth a ffraethineb heb ei hail yn lleoliad bendigedig Neuadd Bardenstock, Castell Sain Dunwyd. Dewch i glywed y trwmpedwr hunanaddysgiedig a’r cyn-ddisgybl o Eton a ddaeth yn un o arloeswyr cerddoriaeth jas ym Mhrydain ac yn un o’r perfformwyr mwyaf doniol o bell ffordd! Tocynnau: £19.50; £18. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01446 799100 neu ewch i www.stdonats.com.

Hydref

Sadwrn 6 – Marchnad Ffermwyr y Bont-faen
Maes parcio Arthur John rhwng 10am ac 1pm. Ffoniwch 01656 729305 am fwy o wybodaeth.

Gwener 12 – Dawnsio Neuadd a Dawnsio Dilyniant Poblogaidd – Ystafelloedd Paget, Penarth
Rhagor o hwyl ddawnsio rhwng 8pm a 10.30pm. Tocynnau: £4 wrth y drws. Dewch â’ch diod eich hun. Cewch wisgo’n daclus neu’n anffurfiol ond peidiwch â gwisgo jîns, trenyrs na chrys-T. Ffoniwch Alan Taylor ar 07890 707759 am fwy o wybodaeth.

Gwener 12 – Jeifio Modern De Cymru – Ystafelloedd Paget, Penarth
Croeso i bawb ddod i fwynhau noson o hwyl a dawnsio rhwng 8pm ac 11.45pm. Tocynnau: £5 wrth y drws. Cewch ddiod ysgafn wrth y bar ac mae croeso i chi ddod â’ch alcohol eich hun. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 07977 901562 neu ewch i www.southwalesmodernjive.com.

Gwener 19 – Manna Fienna – Neuadd a Theatr Goffa’r Barri
Noson hudol o ganu ac alawon fiolín esgynnol sy’n tynnu ar rai o weithiau mwyaf poblogaidd cyfansoddwyr Fienna gan gynnwys Kreisler, Lehar, Kalman a Johan Strauss. Tocynnau: £10 ac £8 (pris gostyngedig). Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01446 738622, anfonwch neges e-bost i boxoffice@barrymemo.co.uk neu ewch i www.memorialhalltheatre.co.uk.

Sadwrn 20 – Marchnad Ffermwyr y Bont-faen
Maes parcio Arthur John rhwng 10am ac 1pm. Ffoniwch 01656 729305 am fwy o wybodaeth.

Gwener 26 – Dawnsio Neuadd a Dawnsio Dilyniant Poblogaidd – Ystafelloedd Paget, Penarth
Dewch i berffeithio’ch techneg a mwynhau noson gymdeithasol hynod gyfeillgar. Mae’n addas i unrhyw un sydd wedi meistrolï camau sylfaenol dawnsio neuadd neu sy’n gyfarwydd â rhai o’r dawnsiau dilyniant poblogaidd. Llawr bendigedig ar gyfer dawnsio ac awyrgylch ffantastig. Cewch wisgo’n daclus neu’n anffurfiol ond peidiwch â gwisgo jîns, trenyrs neu grys-T. Dewch â’ch diod eich hun. Tocynnau: £4 wrth y drws. Ffoniwch Alan Taylor ar 07890 707759 am fwy o wybodaeth.

Gwener 26 a Sadwrn 27 – Nos Galan Gaeaf yng Ngerddi Dyffryn
Dewch i’r gerddi ar Nos Galan Gaeaf os beiddiwch, a chewch ymuno yn y gweithgareddau a cherdded ar hyd llwybrau arswyd. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 029 2059 3328 neu ewch i www.dyffryngardens.org.uk.

Sadwrn 27 – Nos Galan Gaeaf ym Mhentref Canoloesol Cosmeston, Penarth
Dewch i brofi ochr dywyll bywyd yr oesoedd canol drwy gerdded llwybrau ysbrydion a dilyn gweithgareddau sy’n ail-greu awyrgylch y cyfnod i’r dim. Ffoniwch 029 2070 1678 am fwy o wybodaeth.

Sadwrn 27 a Sul 28 – Gŵyl Bwyd a Diod y Bont-faen
Dyma un o uchafbwyntiau calendr y Bont-faen, a bydd y bedwaredd ŵyl yn llawn cynnyrch blasus o bob man. Atyniadau’r penwythnos fydd diodydd, sgysiau, pabell siampên, gweithgareddau ar gyfer plant ac awyrgylch camfâl llawn hwyl. Am fwy o wybodaeth am yr arddangoswyr a’r cynlluniau diweddaraf ar gyfer yr ŵyl, ffoniwch 07875 290428 neu ewch i www.cowbridgefoodanddrink.org.

Sadwrn 27 – Marchnad Ffermwyr Penarth
Ysgol Westbourne rhwng 10am ac 1pm. Ffoniwch 01656 729305 am fwy o wybodaeth.

Mawrth 30 – The Witch’s Bogey – Neuadd a Theatr Goffa’r Barri
Sioe gerdd newydd sbon i’r teulu sydd wedi’i seilio ar stori tylwyth teg o Rwsia o’r enw ‘Baba Yaga’. Stori am hen wrach ddieflig yw hon sydd wrth ei bodd yn bwyta merched ifainc i ginio! Mae’n addas i blant o bob oedran yn enwedig rhai hŷn. Bydd gweithdy drama hefyd er mwyn i deuluoedd gael dysgu am y stori, y caneuon a’r cymeriadau, a gallu hisian a bŵan ar y rhai iawn! Bydd y gweithdy’n dechrau am 1.30pm a’r sioe am 2.30pm. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01446 738622, anfonwch neges e-bost i boxoffice@barrymemo.co.uk neu ewch i www.memorialhalltheatre.co.uk.

Tachwedd

Gwener 2 – Jeifio Modern De Cymru – Ystafelloedd Paget, Penarth
Dewch â’ch esgidiau dawnsio am noson fendigedig rhwng 8pm ac 11.45. Cewch ddiod ysgafn wrth y bar ac mae croeso i chi ddod â’ch alcohol eich hun. Tocynnau: £5 wrth y drws. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 07977 901562 neu ewch i www.southwalesmodernjive.com.

Sadwrn 3 – Potter ar Wib – Neuadd a Theatr Goffa’r Barri
Dyma’r sialens eithaf - sef ailadrodd holl storïau Harry Potter mewn awr - ac mae’r ddau storïwr doniol Dan a Jeff yn hen barod amdani. Mae’n sioe sy’n mynd fel y gwynt ac yn siŵr o ddod â gwên i wyneb y Muggle mwyaf digyfaddawd. Bydd dreigiau pyped llaw, ceir sy’n hedfan, llwyth o gymeriadau o’r llyfrau a digon o jôcs i yrru pob plentyn ac oedolyn sy’n gyfarwydd â’r llyfrau i chwervthin fel ffyliaid. Mae’n addas i blant dros 6 oed. Bydd y perfformiadau am 1.30pm a 4.00pm. Tocynnau: £8 a £6 (pris gostyngedig). Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01446 738622, anfonwch neges e-bost i boxoffice@barrymemo.co.uk neu ewch i www.memorialhalltheatre.co.ukp.

Sadwrn 3 – Marchnad Ffermwyr y Bont-faen
Maes parcio Arthur John rhwng 10am ac 1pm. Ffoniwch 01656 729305 am fwy o wybodaeth.

Gwener 9 - Dawnsio Neuadd a Dawnsio Dilyniant Poblogaidd – Ystafelloedd Paget, Penarth
Dewch i berffeithio’ch techneg a mwynhau noson gymdeithasol hynod gyfeillgar. Mae’n addas i unrhyw un sydd wedi meistrolï camau sylfaenol dawnsio neuadd neu sy’n gyfarwydd â rhai o’r dawnsiau dilyniant poblogaidd. Llawr bendigedig ar gyfer dawnsio ac awyrgylch ffantastig. Cewch wisgo’n daclus neu’n anffurfiol ond peidiwch â gwisgo jîns, trenyrs neu grys-T. Dewch â’ch diod eich hun. Tocynnau: £4 wrth y drws. Ffoniwch Alan Taylor ar 07890 707759 am fwy o wybodaeth.

Sadwrn 10 a Sul 11 – Ugain mlynedd o Gystadlu Cerddorol yn y Fro – Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, y Barri
Dyma ugeinfed gystadleuaeth ‘Cerddoriaeth yn y Fro’, a bydd cyfle unwaith eto i gantorion a cherddorion ifainc lleol ddod ynghyd am ddau ddiwrnod cyfan o gystadlu. Dewch i gefnogi’r cantorion ar ddydd Sadwrn a’r offerynwyr ar ddydd Sul. Mae croeso i bawb. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01446 771911, anfonwch neges e-bost i secretary@musicinthevale.org.uk neu ewch i www.musicinthevale.org.uk.

Sadwrn 17 – Pinocchio – Neuadd a Theatr Goffa’r Barri
Bydd y cynhyrchiad gwreiddiol o’r sioe gerdd hon yn twymo calonnau’r hen a’r ifainc fel ei gilydd. Mae’n dehongli’r stori yn y ffordd fwyaf

gwefreiddiol gyda llawer iawn o hiwmor, darnau o theatr gorfforol hynod ddiddorol a’r hyn sy’n nodweddi Cwmni Theatr Full House yn fwy na dim - sef pypedau 11 o droedfeddi o uchder! Bydd y sioe’n cychwyn am 2.30pm. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01446 738622, anfonwch neges e-bost i boxoffice@barrymemo.co.uk neu ewch i www.memorialhalltheatre.co.uk.


Sadwrn 17 – Marchnad Ffermwyr y Bont-faen
Maes parcio Arthur John rhwng 10am ac 1pm. Ffoniwch 01656 729305 am fwy o wybodaeth.

Iau 22 – Bagel Moisha – Neuadd a Theatr Goffa’r Barri
Noson o gerddoriaeth ddawns o ddwyrain Ewrop, rhythmau canolbarth Ewrop a pherfformiadau unigol meistrolgar gan rai o gerddorion gorau’r Alban. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01446 738622, anfonwch neges e-bost i boxoffice@barrymemo.co.uk neu ewch i www.memorialhalltheatre.co.uk.

Gwener 23 – Dawnsio Neuadd a Dawnsio Dilyniant Poblogaidd – Ystafelloedd Paget, Penarth
Dewch i berffeithio’ch techneg a mwynhau noson gymdeithasol hynod gyfeillgar. Mae’n addas i unrhyw un sydd wedi meistrolï camau sylfaenol dawnsio neuadd neu sy’n gyfarwydd â rhai o’r dawnsiau dilyniant poblogaidd. Llawr bendigedig ar gyfer dawnsio ac awyrgylch ffantastig. Cewch wisgo’n daclus neu’n anffurfiol ond peidiwch â gwisgo jîns, trenyrs neu grys-T. Dewch â’ch diod eich hun. Tocynnau: £4 wrth y drws. Ffoniwch Alan Taylor ar 07890 707759 am fwy o wybodaeth.

Sadwrn 24 – Marchnad Ffermwyr Penarth
Ysgol Westbourne rhwng 10am ac 1pm. Ffoniwch 01656 729305 am fwy o wybodaeth.

Gwener 30 hyd 16 Rhagfyr – Goleuo’r Nos yng Ngerddi Dyffryn
Cyfle i ddilyn llwybr trawiadol drwy ardd goed oleuedig Gerddi Dyffryn. Bydd ar agor bob nos Wener, nos Sadwrn a nos Sul yn ystod y cyfnod hwn a bydd pob math o weithgareddau Nadoligaidd hefyd ar y penwythnos olaf. Gwisgwch ddillad cynnes ac esgidiau praff a chofiwch ddod â thortsh. Ffoniwch 029 2059 3328 am fwy o wybodaeth.



Goleuo’r Nos yng Ngerddi Dyffryn (31 Tachwedd – 16 Rhagfyr)
Am y rhestr ddigwyddiadau ddiweddaraf gwelwch www.valeofglamorgan.gov.uk



Buddsoddi £11 miliwn mewn tai

Bydd y Cyngor yn gwario bron i £11 miliwn yn ystod y ddwy flynedd nesaf ar brif gynnllun i drwsio ei stoc dai.

Daw'r arian am y prosiect oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a thrwy gyllidebau'r Cyngor ei hun.

Er mwyn cefnogi strategaeth sy'n anelu at gadw'r stoc dai – sef 3,900 o gartrefi – o dan reolaeth y Cyngor, byddwn yn ceisio codi safon holl gartrefi'r awdurdod i lefel dderbyniol erbyn 2012 yn unol â thargedau'r Cynulliad.

Bydd y gwaith yn cynnwys: ailosod ffenestri a drysau; adnewyddu toeon serth a gwastad; ailweirio; gosod larymau a synwryddion mwg; ailosod landeri ac ailadeiladu muriau cynhaliol a ffiniol a waliau gerddi.

Dyweddodd y Cyngh. Margaret Wilkinson, yr aelod o'r cabinet ar gyfer tai a diogelwch cymunedol: 'Mae ein tenantiaid tai cyngor yn haeddu cael yr amodau byw a'r cyfleusterau gorau bosibl'.

Marathon yn y parc

Roedd mwy na 150 o bobl yn cystadlu ym Marathon LifeStyle blyneddol Porthceri eleni.



Ras bum milltir ym Mharc Gwledig Porthceri, y Barri yw hon, sy'n arwain drwy goedwigoedd, caeau ac ar hyd rhannau o'r arfordir lle mae golygfeydd bendigedig.

Dyweddodd un o'r cystadleuwyr a ddaeth i ben â'r ras: 'Roedd Marathon Porthceri yn fy mhrofi ond nid yn fy llorio ac roedd yn rhagarweiniad da i rasio traws gwlad. Roedd y penaethiaid yn gefnogol iawn a'r dorf yn gyfeillgar'.

Cafodd y ras ei noddi gan gynnllun Iechyd a Ffitrwydd LifeStyle y Cyngor sy'n cael ei weithredu yng nghanolfannau'r Barri, y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth ac yn cynnig amodau ymaelodi amrywiol.

Gwobrwyo'r Cyngor am hyfforddi cynghorwyr



Cyngor y Fro yw un o dri awdurdod lleol yng Nghymru'n unig i ennill gwobr genedlaethol am hyfforddi a chefnogi cynghorwyr lleol.

Drwy ymgynghori â'i aelodau (sef y cynghorwyr), daw'r Cyngor i ddeall eu hanghenion, ac mae wedi llunio rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau a gweithdai ar eu cyfer erbyn hyn.

Cafodd ymdrechion y Cyngor eu cydnabod yn un o gynadleddau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru pan dderbyniodd 'Siartr Cymru dros Gefnogi a Datblygu Aelodau'. Wrth ei chyflwyno, dywedodd Arweinydd CLILC, y Cyngh. Derek Vaughan: 'Busnes gwerth miliynau o bunnoedd yw llywodraeth leol, sy'n cael ei oruchwylio gan gynrychiolwyr y bobl -

sef eich cynghorwyr lleol. Mae swyddogaeth cynghorwyr yn bwysig tu hwnt ac mae angen rhoi pob cefnogaeth a chwarae teg iddynt ddatblygu fel y gallant wynebu sialens y swydd.

Dyweddodd Prif Weithredwr y Fro, John Maitland Evans: 'Rydym yn falch iawn bod y Cyngor yn chwarae rhan mor flaenllaw wrth ddatblygu aelodau.

'Mae llywodraeth leol wedi newid yn sylweddol yn ystod y chwe blynedd diwethaf, a bydd gan aelodau swyddogaethau newydd erbyn hyn sy'n mynd yn fwy cymhleth ar hyd yr amser'.

Wrth dderbyn y wobwr, aeth y Cyngh. Margaret Randall, sydd hefyd yn Bleidiwr Datblygu Aelodau'r Cyngor, ati i ddiolch i

Cynrychiolwyr Cyngor y Fro - sef y Cyngh. Margaret Randall (Aelod o'r Cabinet a Phleidiwr Datblygu Aelodau), Allan Williams (Pennaeth Hyfforddi a Datblygu) a Jeff Wyatt (Rheolwr Gwaith Gwasanaethau Democritaidd) yn derbyn

Siartr Cymru dros Gefnogi a Datblygu Aelodau (gwelwch y llun bach) oddi wrth y Cyngh. Derek Vaughan (yr ail o'r chwith), Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.



Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r swyddogion yn Gymraeg a Saesneg. Dywedodd: 'Am ei bod yn rhaid i aelodau wynebu sialens newydd bob gafael, mae'n bwysig eu hyfforddi a'u datblygu i'r safon uchaf bosibl ar gyfer eu gwaith y tu fewn a'r tu allan i'r Cyngor.

'Mae'n rhaid i aelodau profiadol loywi eu sgiliau a'u gwybodaeth er mwyn ymdopi â rôl sy'n newid ar hyd yr amser, ac i aelodau newydd ddeall eu cyfrifoldebau a chael pob chwarae teg i ddysgu sgiliau newydd.

'Mae'n bwysig cynnal y brwdfrydedd hwn, ac mae'r Cyngor yn benderfynol o ddechrau cyfnewid ag aelodau unigol er mwyn trafod datblygiad personol'.

Sylwadau positif ar ôl y chwe thrafodaeth

Bu'r Cyngor yn trefnu trafodaethau ar gyflwr yr ardal unwaith eto eleni, a'r tro hwn roedd cyfarfodydd yn y Barri, y Bont-faen, Dinas Powys, Llanilltud Fawr, Penarth a'r Wig.

Cyn cynnal y trafodaethau, gan gynnwys tri ychwanegol a drefnwyd am y tro cyntaf eleni, buom yn ceisio dod i wybod beth yn union a oedd yn debyg o gael ei drafod.

Gwastraff ac ailgylchu, traffig a ffyrdd, troseddau a diogelu cymunedau a chyfleusterau cymunedol oedd rhai o'r pynciau dan sylw'r tro yma.

Roedd y cyfarfodydd yn denu digon o bobl ar y cyfan a chawsom nifer o drafodaethau bywiog.

Dyweddodd y Cyngh. Margaret Alexander, Arweinydd y Cyngor: 'Cawsom sylwadau positif

iawn ar ôl y cyfarfodydd, ac roedd pobl yn falch i ni fynd i'r drafferth o geisio cyrraedd mwy o bobl yn y Fro.

'Roedd pawb i'w gweld yn fodlon ar y fformat newydd, a gwnaethom bob ymdrech i gadw'r trafodaethau rhwng cynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd rhag mynd yn unochrog'.

Cyfarfodydd lle mae croeso i bawb

Mae croeso i'r cyhoedd ddod i gyfarfodydd y Cyngor sydd fel arfer cychwyn am 6pm ac yn cael eu cynnal yn y Swyddfeydd Dinesig oni fynegwyd yn wahanol:

- Cabinet (2pm) – 5, 19 Medi; 3, 17, 24 Hydref; 7, 21, 28 Tachwedd.
- Cyngor – 3 Hydref; 5 Rhagfyr.
- Cynllunio – 6 Medi; 10 Hydref; 15 Tachwedd.
- Cydgysylltu â'r Sector Gwifoddol – 12 Medi; 21 Tachwedd.
- Cysylltu â'r Gymuned (7pm) – 25 Medi; 20 Tachwedd.
- Trwyddedu (10am) – 6 Tachwedd.

Bydd cyfarfodydd archwilio'n cychwyn am 6pm ac fel arfer yn cael eu cynnal yn y Swyddfeydd Dinesig:

- Dysgu Gydol Oes – 10 Medi; 8 Hydref; 5, 28 Tachwedd.
- Adnoddau Corfforaethol – 11 Medi; 9 Hydref; 6 Tachwedd; 4 Rhagfyr.
- Lles a Diogelwch Cymunedol – 3 Medi; 1, 22 Hydref; 26 Tachwedd.
- Yr Economi a'r Amgylchedd – 4 Medi; 2, 23 Hydref; 27 Tachwedd.

PEIDIWCH Â CHOLLI'CH HAWL I BLEIDLEISIO

Er mwyn i ni baratoi Cofrestr Etholwyr newydd a fydd yn dod i rym ar 1 Rhagfyr, byddwn yn anfon ffurflen ganfasio flynyddol i bob cartref. Dylai'ch ffurflen chi fod wedi'ch hen gyrraedd erbyn hyn.

Diben Cofrestr yr Etholwyr yw rhoi cyfle i chi bleidleisio. Os nad yw eich enw ar y gofrestr ni fydd yn bosibl i chi wneud hynny.

Bydd asiantaethau credyd hefyd yn defnyddio'r Gofrestr er mwyn cadarnhau manylion a chyfeiriadau pobl sydd wedi cyflwyno cais am forgaïs, benthygiad, cytundeb credyd, agor cyfrif banc ac ati. Mae perygl i chi fethu â chael credyd os nad yw eich enw ar y Gofrestr.

Os nad ydych eisoes wedi llenwi'ch ffurflen ganfasio, gwnewch hynny ar unwaith a'i hanfon yn ôl yn yr amlen bwrpasol.

Am fwy o wybodaeth am Gofrestr Etholwyr y Fro ffoniwch Adran Cofrestru Etholiadol y Cyngor ar 01446 709748/570 neu 304.



Y Swyddfa Archwilio'n canmol prosiect gwerth £14m

Mae prosiect gwerth £14m a drefnwyd er mwyn chwyldroi gwaith y Cyngor, wedi cael ei ganmol gan Swyddfa Archwilio Cymru'n ddiweddar am ei gynnydd.

Rhaglen sy'n gwneud defnydd dyfeisgar o'r dechnoleg ddiweddaraf yw UnFro, a'i chanolbwynt yw canolfan alwadau sydd eisoes wedi'i sefydlu ac wrthi'n ymdrin â phob math o wasanaethau.

Bydd y ganolfan alwadau'n symleiddio'r holl broses o gysylltu â gwasanaethau cyngor ac yn ein helpu i drafod ymholiadau'n fwy effeithiol nag erioed o'r blaen. Mae disgwyl i'r Cyngor ddechrau defnyddio un rhif yn unig ar gyfer ymholiadau o ddechrau 2008 ymlaen.

Bydd y rhaglen hefyd yn golygu sefydlu nifer o siopau un stop cyhoeddus mewn llyfrgelloedd ym mhob rhan o'r Fro.

Mae arolwg diweddaraf y Swyddfa Archwilio ar gynnydd y gwaith yn sôn am yr 'arbedion sylweddol' sydd eisoes wedi'u gwneud 'drwy weithredu'n effeithiol' a'r holl 'enghreiffiau o ymarfer da' o safbwynt rheoli'r prosiect.

Dywedodd cyfarwyddwr rhaglen UnFro, Huw Isaac:

**OneVale
UnFro**

